**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: P O'Connor (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P R Hood-Williams | P K Jones |
| J W Jones | M B Lewis | S Pritchard |
| L V Walton | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr E T Kirchner, A H Stevens a Jason Garcia (Swyddfa Archwilio Cymru)

---

## 13 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd C Anderson gysylltiad personol â chofnod 15 – Trosolwg Risg Ganol Blwyddyn 2020/21.

## 14 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

## 15 Trosolwg o Risg Canol Blwyddyn 2020/21. (Er gwybodaeth) (Richard Rowlands)

Cyflwynodd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol adroddiad a roddodd drosolwg i'r Pwyllgor Archwilio o statws risgiau yn y Cyngor yn ystod hanner cyntaf 2020/21.

Ychwanegwyd bod monitro a rheoli risgiau corfforaethol ac adrodd amdanynt wedi'u hatal ym mis Mawrth gan fod swyddogion yn brysur â materion eraill neu eu bod wedi'u heffeithio'n dilyn y cyfnod clo yn yr ymateb i bandemig COVID-19. Er bod y pandemig yn parhau o hyd, cynhaliwyd y broses rheoli risgiau ym mis Gorffennaf, ac ailddechreuodd gweithredoedd monitro ac adrodd misol ym mis Awst.

Darparodd yr adroddiad drosolwg o'r statws risgiau yn ystod chwe mis cyntaf 2020/21 ac edrychodd ymlaen at y trydydd chwarter. Byddai adroddiadau monitro chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio yn ailddechrau ar gyfer y trydydd chwarter pan fyddai gwybodaeth lawn o dri mis ar gael ar ôl yr adferiad.

Darparwyd copi o'r Risgiau Corfforaethol (22/10/20) yn Atodiad A, darparwyd adroddiad eithriad yn Atodiad B a darparwyd Risgiau'r Gyfarwyddiaeth yn Atodiad C.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Dychwelwyd 14% o adolygiadau risg drwy gydol y cyfnod a'r ffaith y caniatawyd i reolwyr barhau i adolygu eu maes risg os oeddent yn gallu gwneud hynny;
- Y camau gweithredu mawr coch drwy gydol yr adroddiad, cydnerthedd yr awdurdod i ddelio â materion brys, cynllunio at argyfyngau drwy'r sefydliad, yn enwedig pan fydd y Cynllun Adfer yn cael ei weithredu a phan ddisgwylir gwelliannau;
- Y risgiau sy'n gysylltiedig ag adfer trychinebau TGCh, sut yr oedd y pandemig wedi effeithio ar y gweithlu, yn enwedig gan fod nifer o staff wedi'u hadleoli i gefnogi gwasanaethau'r cyngor a sut yr oedd swyddogion yn canolbwyntio ar liniaru unrhyw risgiau;
- Sut mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi canolbwyntio ar y meysydd risg coch a'r gwelliannau a oedd yn ddisgwyliedig cyn yr adolygiad nesaf;
- Yr effaith a gafodd y pandemig ar yr awdurdod a faint o wasanaethau oedd wedi canolbwyntio'n llwyr ar ddelio â'r materion a gododd yn unig;
- Y cymorth a ddarperir drwy hyfforddiant/monitro/lles i'r staff a gafodd eu hadleoli yn ystod y cyfnod a sut roedd rheolwyr yn parhau i fonitro risgiau'n rheolaidd;
- Atal am gyfnod dros dro y broses o fudo'r gweinydd i system ar gwmwl, sut yr oedd Brexit wedi gohirio cynnydd a bod lefel y risg yn dal i gael ei nodi fel risg ambr;
- Sut cafodd aelodau staff eu hadleoli i feysydd penodol, e.e. Cyllid a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chanlyniad cadarnhaol sy'n dangos yr adolygwyd 93% o'r risgiau er gwaethaf y cynnwrf;
- Yr angen am resymoldeb mewn perthynas â meysydd risg o ganlyniad i bwysau'r gweithlu oherwydd y pandemig a'r disgwyliad yr adroddir ar gynnydd yn yr adroddiad nesaf;
- Rhagwelwyd y byddai meysydd risg coch yn codi o ystyried yr amgylchiadau, y sicrwydd a roddwyd o ganlyniad i adolygu 93% o'r risgiau ar draws adrannau a'r angen i ganiatáu lle i alluogi adferiad/gwelliant;
- Tri cham y cynllun adfer a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer adferiad;
- Amlygwyd risgiau nas nodwyd o'r blaen, ac roedd llawer ohonynt yn gysylltiedig â COVID-19/y gweithlu, a oedd o dan reolaeth Cyfarwyddwyr/Adrannau lle'r oedd disgwyl i swyddogion ymateb yn briodol;

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Weithredwr gadarnhau pe bai unrhyw risgiau sylweddol a oedd yn cael eu rheoli o fewn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod lle rheolwyd risgiau wedi achosi problemau i'r cyngor pan adroddwyd amdanynt i'r TRhC ym mis Awst 2020. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr nad oedd yn credu eu bod wedi gwneud hynny;
- Fformat yr adroddiad, yn enwedig wrth gysylltu amcanion y cyngor â risgiau/rheolaethau er mwyn rhoi sicrwydd;
- Sicrhau bod rolau'r Pwyllgor Archwilio/Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn glir yn y Cynllun Adfer wrth symud ymlaen.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor Archwilio bryderon ynghylch cadernid y broses rheoli risgiau cyn COVID-19 a bod angen sicrwydd ar y Pwyllgor o hyd. Cydnabuwyd bod COVID-19 wedi effeithio ar gynnydd ond hyd nes y byddai'r broses o reoli risgiau'n glir i'r Pwyllgor Archwilio, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cyflawni ei rôl yn llawn.

Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Tîm Rheoli Corfforaethol am gael yr un canlyniad ac unwaith y byddai swyddogion yn cael eu defnyddio a bod mynediad uniongyrchol yn cael ei ddarparu, byddai Cynghorwyr yn gallu cwestiynu'r system yn fwy effeithiol.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**16 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio. (Er gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse)**

Darparwyd Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

Dywedodd y Cadeirydd fod angen cymryd camau pellach ar risg er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor.

**17 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse)**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

Ychwanegodd y Cadeirydd ei bod wedi gofyn i'r Prif Archwilydd roi diweddariad yn ystod y cyfarfod ym mis Rhagfyr ar Gynllun Blynyddol Archwiliad Mewnol 2020/21 y Tîm Archwilio Mewnol mewn perthynas ag anawsterau a wynebir oherwydd COVID-19.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.51 pm

**Cadeirydd**